Hawdd ei Ddeall

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales hiw

# Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu yn Rhondda Cynon Taf

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) - Gwiriad Sicrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg/Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (CLDT)**'.

**Chwefror 2024**

# Sut i ddefnyddio'r adroddiad yma

Dyma adroddiad hawdd ei ddeall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefannau:**

www.arolygiaethgofal.cymru

www.agic.org.uk

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys


**Am yr adroddiad hwn** ........ **4**

**Beth rydyn ni yn ei wneud** ........ **5**

Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau ........ 6

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod** ........ **7**

People ........ 8

Atal ........ 14

Partneriaeth ........ 20

Llesiant ........ 24

**Beth fydd yn digwydd nesaf** ........ **29**

**Geiriau anodd** ........ **31**

# Am yr adroddiad hwn

Ni ydy **Arolygiaeth Gofal Cymru** ac **Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**.

Rhwng **13 a 15 Chwefror 2024**, fe wnaethon ni **Wiriad Sicrwydd** o:



- Gwasanaeth Anabledd Dysgu Cymunedol Rhondda Cynon Taf a
- Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol Iechyd De Rhondda Cynon Taf.



Mae **Gwiriad Sicrwydd** yn edrych i weld eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.




Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** yn talu **Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** i ddarparu'r gwasanaethau iechyd yma yn Rhondda Cynon Taf.


Edrych ar wasanaethau anabledd dysgu yn Rhondda Cynon Taf

Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Mae'r adroddiad yma yn rhannu beth rydyn ni wedi ei ddarganfod.

# Beth rydyn ni yn ei wneud



Rydyn ni'n edrych ar ba mor dda mae cynghorau a byrddau iechyd yn gwneud eu gwaith ac yn helpu pobl.

Rydyn ni yn canolbwyntio ar ba mor dda mae'r cyngor a'r bwrdd iechyd yn gwneud y pethau yma:



1. **Pobl** - Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael dweud eu dweud ac yn cael rheoli yn eu bywydau.



2. **Atal** - Cadw'r angen am gefnogaeth yn isel a stopio problemau rhag gwaethygu.



3. **Partneriaethau** - Gweithio'n dda gydag eraill i ddarparu gwasanaethau da a pharhaol.



4. **Llesiant** - Amddiffyn pobl rhag niwed a chamdriniaeth, fel eu bod nhw yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael cefnogaeth.




Rydyn ni yn edrych i weld ydy gwasanaethau'n dilyn y gyfraith:

- **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**
- **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.**

## Y ffordd rydyn ni wedi gwneud ein gwiriadau



Rydyn ni wedi edrych ar **26 o bobl**. Roedd hyn yn meddwl edrych ar:

- eu cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol



- siarad gyda rhai pobl a'u teuluoedd.



Fe wnaethon ni siarad â gweithwyr ac edrych ar ddogfennau.




Fe wnaethon ni arolygon gyda:

- Pobl ag anabledd dysgu a gofalwyr.
- Gweithwyr o'r cyngor a'r bwrdd iechyd.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Rydyn ni wedi dod o hyd i waith da yn cael ei wneud.




A phethau sydd angen bod yn well hefyd.




Mae rhai pethau rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd eu gwneud.




Pan fyddwn ni yn dweud **rhaid**, mae hyn yn meddwl newidiadau mae angen eu gwneud i ddilyn y gyfraith.



Pan fyddwn ni yn dweud **dylai**, mae hyn yn meddwl newidiadau fydd yn gwneud pethau'n well ond dydyn nhw ddim yn gyfraith.

## Gwaith da



Mae llawer o bobl yn gallu gwneud dewisiadau am eu gofal. Mae gofal yn seiliedig ar eu nodau a'u sgiliau i wella eu **llesiant**.

> Mae **llesiant** yn meddwl teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael cefnogaeth.



Mae rhai pobl a'u gofalwyr yn teimlo eu bod nhw yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi wrth gynllunio eu gofal, ond dydy pawb ddim.



Fe wnaeth llawer o bobl ddweud bod **Timau Anabledd Dysgu Cymunedol** y cyngor a'r byrddau iechyd yn gallu gwrando'n well.



Mae rhai pobl yn teimlo eu bod yn cael eu clywed. Maen nhw'n gallu siarad yn eu dewis iaith neu ddefnyddio iaith arwyddion a lluniau. Mae therapyddion lleferydd yn helpu.




Fe wnaethon ni weld enghraifft dda o ddefnyddio Hawdd ei Ddeall. Mae'n helpu rhywun i ddeall pethau'n well.



Mae gweithwyr yn gwybod bod pobl angen help i siarad drostyn nhw eu hunain. Mae pobl yn cael cefnogaeth gan gynorthwywyr swyddogol a'u teulu a'u ffrindiau.




Mae pobl yn gallu rheoli eu gofal gyda thaliadau uniongyrchol. Mae dod o hyd i gynorthwywyr personol yn Rhondda Cynon Taf yn gallu bod yn anodd. Mae hyn yr un fath mewn rhannau eraill o Gymru.



Gweithwyr gofal. Maen nhw'n teimlo bod eu timau'n ddefnyddiol ac yn canolbwyntio ar bobl. Maen nhw yn ymddiried yn eu rheolwyr i ateb unrhyw broblemau yn dda.



Roedden nhw'n dweud y byddai mwy o adnoddau yn gallu helpu pobl gydag anabledd dysgu i gael mynediad at weithgareddau yn well.

## Pethau sydd angen bod yn well



Mae llawer o weithwyr iechyd a chynghorau yn teimlo'n iawn gyda'u gwaith, ond mae gan rai ormod o waith.



Roedd nyrsys anabledd dysgu cymunedol yn dweud eu bod yn cael trafferth gyda thasgau ychwanegol.




Mae gweithwyr cymdeithasol yn brysur gyda gwaith y Llys Gwarchod, gan ei gwneud hi'n anodd helpu eraill.



**Fe ddylai'r bwrdd iechyd a'r cyngor edrych ar hyn a meddwl am roi mwy o help neu hyfforddiant i weithwyr.**



Mae rhai gweithwyr gofal cymdeithasol yn cysylltu'n rheolaidd gyda'u pennaeth, ond dydy eraill ddim yn gwneud hynny.



**Fe ddylai'r cyngor wneud yn siŵr bod gan bawb amser i siarad am eu gwaith a bod eu penaethiaid yn gwybod beth maen nhw'n ei wneud.**




Dydy pob gweithiwr iechyd ddim yn dysgu am y **Ddeddf Iechyd Meddwl** yn rheolaidd.



**Fe ddylai'r bwrdd iechyd addysgu staff sy'n gofalu am bobl o dan y deddfau yma, fel eu bod nhw yn gwybod am y rheolau diweddaraf.**



Anaml y bydd rheolwyr yn edrych ar waith staff gofal cymdeithasol sy'n cynllunio gofal. Maen nhw yn gwneud rhai gwiriadau ac yn rhannu gyda'r bwrdd perfformiad.



Dydyn nhw ddim yn rheolaidd oherwydd bod gan staff ormod o waith am yr amser sydd ganddyn nhw.



**Fe ddylai'r cyngor wneud yn siŵr bod rheolwyr yn edrych ar y gwaith fel bod gofal a gwneud penderfyniadau yn dda.**



Dydy cofnodion iechyd ddim yn cael eu hedrych arnyn nhw yn ddigon aml.



**Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddechrau edrych arnyn nhw yn rheolaidd i wneud yn siŵr eu bod yn iawn. Ac yn cael ei wneud yn yr un ffordd bob tro.**



Mae gweithwyr iechyd yn ei chael hi'n anodd siarad yn breifat ac yn ddiogel gyda phobl ag anabledd dysgu. Does dim digon o ystafelloedd diogel.

Does dim ystafelloedd da ar gyfer hyn yn swyddfeydd tîm Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol y De.



**Fe ddylai'r bwrdd iechyd wneud mwy o fannau diogel da ar gyfer sgyrsiau a phrofion.**




Mae'r cyngor eisiau i ofalwyr wybod eu hawliau. Maen nhw wedi gwneud newidiadau i annog gofalwyr i gael asesiadau i siarad am eu hanghenion. Ond dydy pawb ddim yn cael cyfle i siarad.



Fe wnaeth gofalwyr ddweud wrthyn ni eu bod eisiau cael eu clywed a'u helpu.



**Mae'n rhaid i'r cyngor a'r bwrdd iechyd gydweithio i wrando ar ofalwyr. Rhaid iddyn nhw gynnig asesiadau gofalwyr a gwneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael eu cefnogi.**

# Atal


## Gwaith da



Mae rheolwyr yn gwybod bod helpu'n gynnar yn dda, felly does dim angen mwy o help ar bobl yn nes ymlaen.



Maen nhw eisiau helpu pobl i fod yn gryf a delio â phethau ar eu pennau eu hunain.




Mae'r cyngor yn newid ei wasanaethau dydd. Maen nhw eisiau helpu pobl i wneud mwy. Maen nhw'n galw'r cynllun hwn yn **Fy Niwrnod i Fy Ffordd i**.




Mae angen iddyn nhw wneud yn siŵr bod y gwasanaethau newydd yma yn hawdd i bobl ag anabledd dysgu eu defnyddio.



Mae pobl yn cael help i gadw'n iach. Fe wnaeth person o'r enw y Cydlynydd Meddyg Teulu helpu meddygon a'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol i gydweithio.



Mae hyn yn helpu pobl gydag anabledd dysgu i gael y gofal iechyd maen nhw ei angen.



Pan fydd angen meddyginiaeth ar bobl, mae gweithwyr yn ei roi iddyn nhw yn ddiogel. Mae gweithwyr iechyd yn llenwi'r siartiau sy'n olrhain meddyginiaeth yn iawn. Mae'r person sy'n cael y feddyginiaeth yn edrych ar y siart.




Mae gweithwyr iechyd yn gwneud hyn yn dda ac yn dilyn rheolau'r bwrdd iechyd.



Yn Rhondda Cynon Taf, mae llawer o fathau o leoedd byw â chymorth. Dyma lle mae pobl yn gallu cael eu lle eu hunain a chael help gan staff pan fyddan nhw angen. Mae pobl yn hoffi hyn yn fawr iawn.



Ond dydy pob man ddim yn rhoi cyfle i gyfarfod a gwneud pethau gydag eraill, fel nosweithiau dawns. Fe ddylai'r cyngor edrych ar hyn i wneud yn siŵr bod gan bobl bethau i'w gwneud.

## Pethau sydd angen bod yn well



Mae rhai pobl yn gwneud pethau hwyl fel drama a grwpiau natur, ond dydy pawb ddim yn gwybod amdanyn nhw. Mae rhai yn defnyddio ap i ddod o hyd i weithgareddau.



Dydy pobl eraill, gan gynnwys gofalwyr a gweithwyr, ddim yn gwybod beth sydd ar gael.



Dydy rhai ddim yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol na ffonau clyfar ac maen nhw eisiau gwybod am weithgareddau mewn ffyrdd eraill.



**Fe ddylai'r cyngor lleol a'r bwrdd iechyd feddwl am ffyrdd eraill o ddweud wrth bobl am weithgareddau cymunedol.**



Mae rhai pobl eisiau mwy o gyfleoedd i weithio a gwirfoddoli. Mae gofalwyr yn dweud bod llai o gyfleoedd i oedolion ag anabledd dysgu wneud pethau ar eu pen eu hunain.



**Fe ddylai'r cyngor ddweud wrth bobl am gynlluniau ar gyfer prosiectau, swyddi a defnyddio lleoedd cymunedol ar gyfer dysgu, gwirfoddoli a gwaith.**



Fe wnaeth y **Tîm Cymorth Dwys Anabledd Dysgu** ddechrau helpu pobl ag ymddygiadau sydd yn gallu bod yn heriol. Dydy rhai gweithwyr iechyd a chyngor ddim yn gwybod beth mae'r tîm yn ei wneud.



**Fe ddylai'r bwrdd iechyd a'r cyngor wneud yn siŵr bod gweithwyr yn gwybod beth mae'r Tîm Cymorth Dwys Anabledd Dysgu yn ei wneud.**




Doedd cynlluniau brys ddim bob amser yn dda a dydyn nhw ddim yn cefnogi gofalwyr yn llawn.



Mae cynlluniau brys da yn meddwl bod pobl yn teimlo'n ddiogel gan fod help ar gael os nad ydy eu prif ofalwr yn gallu helpu.




**Fe ddylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd wneud yn siŵr bod gweithwyr yn helpu pobl a gofalwyr i wneud y cynlluniau yma.**



Mae rhai pobl yn cael trafferth cael gafael ar offer meddygol yn gyflym. Dydy pobl, gofalwyr a nyrsys ddim yn hoffi'r oedi. Mae hyn yn digwydd oherwydd nad ydy hi'n glir pa fwrdd iechyd ddylai dalu.



**Mae'n rhaid i'r byrddau iechyd ddod o hyd i ffordd gyflymach o gael yr offer yma.**




Mae rhestrau aros ar gyfer asesiadau a gwasanaethau yn effeithio ar bobl. Mae'r rhestrau yma yn cael eu trefnu yn ôl pa mor ddifrifol mae rhywun angen help. Mae'r rhestrau yn cael eu edrych arnyn nhw yn aml.



**Mae'n rhaid i'r cyngor lleol a'r bwrdd iechyd barhau i edrych ar y rhestrau yma, fel bod pobl yn cael help pan fyddan nhw fwyaf ei angen.**




Mae llawer o bobl eisiau i gynlluniau gofal a chymorth gael eu gwirio'n amlach.



**Mae'n rhaid i'r cyngor edrych ar y cynlluniau yma yn aml i wneud yn siŵr bod y gofal yn iawn i bob person a'i newid os oes angen.**


# Partneriaeth

## Gwaith da



Mae **cyd-gynhyrchu** yn rhan fawr o **Raglen Trawsnewid Anabledd Dysgu Rhondda Cynon Taf**.


**Cyd-gynhyrchu** ydy pan fydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ac yn cael llais cyfartal.




Yn 2022, fe wnaethon nhw **gyd-gynhyrchu** prosiect o'r enw **Fy Niwrnod i, Fy Ffordd i** i ddeall beth mae pobl yn ei feddwl a'i angen. Mae hyn wedi newid sut mae gwasanaethau dydd yn gweithio.




Yn 2023, fe wnaethon nhw ddechrau prosiect **Fy Nghartref i, Fy Ffordd i,** gan ofyn i bobl rannu eu syniadau am Wasanaethau Byw â Chymorth.




Mae'n dda cynnwys oedolion ag anabledd dysgu. Roedd un person yn hoffi bod yr holl wybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.



Fe wnaethon ni weld bod gweithwyr a phobl yn cyd-dynnu'n dda ac yn cytuno ar beth sy'n bwysig.



Mae'r bwrdd iechyd a'r cyngor yn cyfarfod i gynllunio'n well. Maen nhw'n gwneud gwaith da, yn rhannu arian ac yn cynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.



Mae pobl ifanc sy'n symud i wasanaethau oedolion yn cael help gan yr ysgol a'r cynghorwyr. Maen nhw yn gweithio gyda'r **Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol** i wneud yn siŵr bod y newid yn mynd yn dda.



Mae'r gwaith tîm yma yn helpu i wneud y symud i wasanaethau oedolion yn haws.

## Pethau sydd angen bod yn well



Dydy gweithwyr iechyd a gweithwyr y cyngor ddim yn gweithio yn yr un lle.



A dydyn nhw ddim yn gallu gweld ffeiliau ei gilydd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd rhannu gwybodaeth am iechyd a gofal pobl.




**Mae'r bwrdd iechyd a'r cyngor yn ceisio cydweithio mwy. Fe ddylen nhw edrych i weld sut maen nhw'n rhannu gwybodaeth yn ddiogel a'i gwella.**



Doedd gan rai pobl ddim eu gweithiwr cymdeithasol eu hunain ac roedd hi'n anodd cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol i oedolion.



Pan aethon nhw drwodd, roedd yn rhaid iddyn nhw ddweud yr un pethau wrth wahanol weithwyr.



**Mae'r cyngor wedi newid sut mae gofal cymdeithasol i oedolion yn gweithio'n ddiweddar. Fe ddylen nhw wneud yn siŵr nad oes rhaid i bobl ddweud yr un pethau drosodd a throsodd.**



**Fe ddylen nhw wneud yn siŵr bod pobl yn cael help yn gyflym pan fyddan nhw yn cysylltu â'r cyngor.**

## Gwaith da



Roedd llawer o asesiadau gofal cymdeithasol yn canolbwyntio ar beth mae pobl ei eisiau a'u nodau. Roedd gweithwyr yn siarad â'r person a'u teulu neu ofalwr.




Fe wnaeth gweithwyr y bwrdd iechyd asesiadau, cynlluniau gofal ac adolygiadau da. Roedden nhw'n dilyn rheolau'r **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)**.



Mae'r cyngor yn ymateb yn gyflym ac yn deg i adroddiadau diogelu oedolion. Mae'r rhain yn adroddiadau sy'n amddiffyn oedolion rhag niwed.



Maen nhw yn edrych ar yr adroddiadau yma ac yn canolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel. Weithiau roedd yn rhaid iddyn nhw benderfynu beth oedd yn fwy diogel, ac roedden nhw yn ysgrifennu pam.



Mae pobl yn penderfynu pethau drostyn nhw eu hunain gymaint â phosibl.




Yn y rhan fwyaf o achosion, mae gweithwyr yn edrych i weld os ydy pobl yn gallu deall ac ymuno â gwneud cynlluniau gofal. Maen nhw yn gwneud hyn yn dda, gan ddilyn rheolau **Deddf Galluedd Meddyliol 2005**.



Mae hawliau pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu parchu. Pan fydd rhywun yn cael ei gadw yn yr ysbyty, mae'r ysbyty'n cadw golwg ar ba mor hir maen nhw'n cael eu cadw. Mae'r ysbytai yn cael cyfarfodydd i edrych ei fod yn deg.



Mae pobl yn cael eu cefnogi os ydyn nhw'n anghytuno y dylen nhw gael eu cadw yn yr ysbyty.



Mae penderfynu a ddylid cadw rhywun mewn ysbyty neu gartref gofal yn gallu cymryd gormod o amser. Ond pan fyddan nhw'n penderfynu, maen nhw'n penderfynu'n dda.



Mae bwrdd goruchwylio'r cyngor yn gwneud gwaith da. Ond mae angen iddyn nhw fod yn gyflymach i stopio mwy o oedi.

## Pethau sydd angen bod yn well




Dydy gwasanaethau gofal cymdeithasol sydd yn cael ei ddarparu i bobl ddim bob amser wedi ei seilio ar beth mae pob unigolyn ei angen.




**Mae’n rhaid i weithwyr feddwl am syniadau newydd i roi’r gofal cywir i bobl, pryd a ble mae ei angen arnyn nhw.**



Roedd ffeiliau gofal iechyd yn dda, ond roedd dod o hyd i wybodaeth yn anodd oherwydd ei fod yn gymysgedd o bapur a chyfrifiaduron.



Mae’r bwrdd iechyd yn gwneud system well, a fydd yn helpu llawer, yn enwedig ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda meddygon.




**Fe ddylai’r bwrdd iechyd barhau gyda’r cynllun yma.**




Dydy cofnodion iechyd ddim bob amser yn rhestru gwybodaeth am y cyfreithiau sy'n bwysig ar gyfer sut y dylid darparu gofal.




**Rydyn ni yn awgrymu bod rhestr yn cael ei hychwanegu ar flaen cofnodion iechyd. Fe fydd hyn yn meddwl bod pobl sy'n rhoi gofal yn gallu deall yn hawdd pa ofal sydd angen ei ddarparu yn ôl y gyfraith.**



Mae ceisiadau am **Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** yn Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn cymryd gormod o amser.



Mae hyn yn meddwl bod rhai pobl yn cael eu cadw mewn ysbytai a chartrefi gofal heb unrhyw amddiffyniad cyfreithiol na chymorth. Mae angen mwy o waith i ddiogelu hawliau pobl.




**Rhaid i reolwyr wneud yn siŵr eu bod yn cael digon o help i wneud eu dyletswyddau cyfreithiol.**



Mae Rhondda Cynon Taf yn cael llai o geisiadau am **Amddifadu o Ryddid** na llefydd eraill yng Nghymru. Mae'r cyngor yn bwriadu hyfforddi rheolwyr cartrefi gofal yn fwy.



**Mae'n rhaid i'r cyngor wneud yn siŵr bod cartrefi gofal yn gwneud ceisiadau pan fo angen.**

# Beth fydd yn digwydd nesaf



Rydyn ni eisiau i'r cyngor a'r bwrdd iechyd weithio i ddatrys y pethau sydd angen eu gwella.

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Yn **Arolygiaeth Gofal Cymru** fe fyddwn ni yn gwylio sut mae pethau'n mynd.



Fe ddylai'r cyngor rannu beth sy'n gweithio'n dda gyda chynghorau eraill i wneud gwasanaethau'n well ar draws Cymru.

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales hiw

Yn **Arolygiaeth Iechyd Cymru** fe fyddwn ni yn olrhain pethau iechyd sydd angen bod yn well gyda Chynllun Gwella.




Fe fydd yn dweud beth sydd angen newid, pwy fydd yn ei wneud, a phryd.




Rydych chi'n gallu dysgu sut rydyn ni yn defnyddio eich gwybodaeth yn: www.arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

Roedden ni yn barod i ddefnyddio'r Gymraeg ar gyfer y **Gwiriad Sicrwydd** yma ond doedd neb eisiau ei defnyddio.




Diolch i'r staff, partneriaid ac eraill sydd wedi helpu gyda'n gwiriadau.

# Geiriau anodd

## Cyd-gynhyrchu

Cydgynhyrchu ydy pan fydd pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ac yn cael llais cyfartal.

## Gwiriad Sicrwydd

Mae gwiriad sicrwydd yn wiriad i wneud yn siŵr eu bod yn gwneud eu gwaith yn dda ac yn dilyn y rheolau.

## Llesiant

Mae llesiant yn meddwl teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn cael cefnogaeth.

WG49836
ISBN 978-1-83577-964-4